Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Chwilio am waith rhan-amser? Dyma rai awgrymiadau:

**Bangor TARGETconnect** - ein system rheoli gyrfa ar-lein i fyfyrwyr a graddedigion https://targetconnect.bangor.ac.uk

Defnyddiwch TARGETconnect i chwilio am waith rhan-amser lleol yn ogystal â chyfleoedd eraill fel profiad gwaith, interniaethau a lleoliadau gwaith a chyflogaeth i raddedigion. Gallwch hefyd sefydlu rhybuddion i'ch hysbysu o'r swyddi gwag diweddaraf yn y sectorau rydych chi'n eu dewis.

**Canolfan Byd Gwaith** (@JCPinNWWales a @JCPyngNghymru ar Twitter): Maent yn rhannu swyddi'n ddyddiol ac mae'n bosib sefydlu rhybuddion i'ch hysbysu o'r cyfleoedd diweddaraf.

Mae **Find a Job** yn wefan pwysig i chwilio am waith. Gellwch ymuno a sefydlu cyfrif neu chwilio yn ôl lleoliad.

Dyma wefannau defnyddiol eraill:

- Indeed
- Total Jobs

Gwefannau swyddi iaith Gymraeg:

- Lleol.Cymru
- Swyddi360
- Safle Swyddi

**Gwefannau Cwmnïau**

Darllenwch y tudalennau 'Swyddi neu swyddi gwag' ar gyfer cwmnïau manwerthu cenedlaethol, swyddfeydd llywodraeth leol neu sefydliadau mwy, byddant yn rhestru'r cyfleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd.

Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Dyma rhai i'w hystyried:

- NHS
- Tesco
- John Lewis Partnership – Waitrose and Partners

**Ffenestri Siopau**

Bydd siopau, caffis, tai bwyta a thafarndai lleol yn aml yn rhoi hysbysebion swyddi gwag yn y ffenestri felly mae'n werth cadw golwg ar y Stryd Fawr o bryd i'w gilydd i weld pwy sy'n recriwtio. Gallwch hefyd alw heibio i wneud ymholiadau ar hap. Gallent ofyn am CV felly ewch ag ychydig o gopïau gyda chi.

**Llefydd eraill i gael hyd i swyddi lleol**

Asiantaethau Recriwtio: Mae asiantaethau lleol fel **Supertemps** a **JVP Jobs Online**, ac asiantaethau cenedlaethol yn cynnwys **Randstad** a **Hays** yn cynnig amrywiaeth o swyddi dros dro a pharhaol.

**Cyfryngau Cymdeithasol**

Mae llawer o gyflogwyr yn awr yn troi at Facebook, Twitter ac Instagram i hyrwyddo eu swyddi gwag. Dilynwch y recriwtwyr sydd o ddiddordeb i chi er mwyn cadw golwg ar unrhyw agoriadau. Gallwch hefyd bostio ar eich cyfrifon eich bod yn chwilio am waith fel y gall eich rhwydwaith rhoi wybod i chi os ydynt yn gweld unrhyw swyddi addas. Mae mwy a mwy o fusnesau yn postio eu swyddi gwag ar grwpiau yn hytrach na thalu am hysbysebion yn y wasg; ymunwch â grwpiau megis 'Ar Werth ym Mangor' i chwilio am swyddi gwag o fewn y grwpiau.

**LinkedIn**

Gall LinkedIn fod yn ffordd ddefnyddiol o gael gwybodaeth am swyddi rhan-amser, yn enwedig y rhai a allai eich helpu i wneud defnydd o'ch sgiliau fel myfyriwr neu unigolyn raddedig. Gallwch hefyd ei ddefnyddio i adeiladu rhwydwaith ac i roi gwybod i gyflogwyr eich bod yn chwilio am waith rhan-amser. Rydym yn cynnal digwyddiadau rheolaidd i'ch helpu i ddatblygu eich proffil LinkedIn: *Gweminerau, Gweithdai a Digwyddiadau

Gwasanaeth Cyflogadwyedd
Employability Service

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

**Ymholiadau ar hap**
Gwnewch adolygiad o'r hyn sydd gennych i'w gynnig, lluniwch eich CV a chysylltu â darpar gyflogwyr. Defnyddiwch eich rhwydwaith personol o gysylltiadau a all wybod am gwmnïau y gallwch anfon ymholiad atynt ar hap.

**Eich CV:** mae'n bwysig eich bod yn addasu eich CV i bob swydd neu ar gyfer pob 'sector' yr ydych am wneud cais am waith (e.e. un ar gyfer gwaith mewn bar, un arall ar gyfer siopau, un arall ar gyfer gwaith gweinyddol).

I gael gwybod mwy am ysgrifennu CV a ffurflenni cais:

***Adnoddau CVs**

**Os ydych angen gwybodaeth penodol ynghylch eich CV neu wrth chwilio am swyddi archebwch apwyntiad i weld un o'n Ymgynghorwyr Cyflogadwyedd**

***adnodd myfyrwyr yn unig**

**Medi 2022**